



PECYN GWYBODAETH

Ymgyrch teledu yn cychwyn dydd Sadwrn 11eg Chwefror 2023
Rhaglen Ysgolion yn lawnsio 20fed o Chwefror 2023

Bwyteuach y Llysiau i'w Llethu – mae'r rhaglen wobrwyl gan Veg Power ac ITV sy'n defnyddio hysbysebion a rhaglen ysgolion i annog plant i fwyta mwy o lysiau yn ei hól am y pumed blwyddyn!

Darllenwch y ddogfen yma i weld beth sydd ar y gweill a sut allwch chi ein cefnogi ni trwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Bydd yr ymgyrch yn cael ei harwain gan yr ymgyrch deledu gwerth £3 miliwn gan ITV, Channel 4 a Sky Media, a fydd yn cael ei lansio ar Nos Sadwrn 11 Chwefror yn ystod *The Masked Singer*. Bydd yr ymgyrch hysbysebu yn cael ei gefnogi gan ein rhaglen ysgolion lwyddiannus, fydd yn rhedeg rhwng yr 20fed o Chwefror a'r 8fed o Ebrill 2023.

Eleni mae gan y rhaglen ysgolion thema newydd "llysiau yn cymryd dros y byd" sydd yn cael ei gefnogi gan ryseitiai, cynlluniau gwersi ac asedau i ddathlu amrywiaeth gwych bwyd ar fwydlen ysgolion ac yn nghartrefi teuluoedd.

Fel rhan o hyn rydym wedi creu 10 thema pryd o fwyd, yn hytrach na gwahanol llysieuyn bob wythnos ac mae croeso i'r ysgolion wneud beth a fynnon nhw gyda'r asedau sydd ar gael yn ystod cyfnod yr ymgyrch.

CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Mae ein ymgyrch ynglyn â dod â phawb at ei gilydd - rhieni, gofalwyr, ysgolion, maethegwyr, llywodraeth leol - i helpu ein plant i fwyta mwy o lysiau. Ar gyfryngau cymdeithasol mae modd i'r gymuned yma gyfarfod a chefnogi ac ysbrydoli ei gilydd.

Mae'r hashnod #EatThemToDefeatThem wedi ei bostio dros 9,000 o weithiau gan bobl a sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys enwogion fel Will.i.am a Phillip Schofield, a cogyddion enwog, ein noddwyr a phartneriaid ac yn fwy pwysig na dim, miloedd o ysgolion a theuluoedd sy'n rhannu'r hwyl mae nhw'n ei gael gyda'r ymgyrch. Gofynnwn yn garedig i'r rhai sy'n ein cefnogi i rannu a phostio, yn eu ffordd eu hunan a defnuddio'r hashnod #EatThemToDefeatThem yn Saesneg a #BwyteuachYLlysiau yn Gymraeg. Dyma rai syniadau...



BWYTEWCH Y LLYSIAU I'W LLETHU

Ysgolion

Postio

Byddem wrth ein bodd os allwch chi rannu eich buddugoliaethau ar eich cyfryngau cymdeithasol. Gall hyn fod yn ddiweddariadau wrth i'r ymgyrch ddatblygu, fel plant yn mwynhau themâu bwyd newydd, gwasanaeth yr ysgol, plant yn dysgu yn yr ystafell ddosbarth, prydau bwyd adref ayyb.

**Cefnogwyr,
noddwyr,
maethwyr,
cogyddion,
arbenigwyr
iechyd**

Cefnogi

Mae'r ymgyrch i gyd am gael plant i fwynhau a bwyta llysiau - ymunwch â ni i ddathlu a chefnogi athrawon i ysbrydoli plant a rhiani i ymuno mewn. Y peth gorau allwch chi wneud yw rhannu eu llwyddiannau - hoffwch, rhannwch, gwnewch sylw - mae hwre mawr wrthoch chi yn meddwl y byd.

cyhoeddus ayyb

Rhannu

Mae gennym amserlen o bostiadau penodol isod. Byddem yn ddiolchgar iawn os allwch chi gadw golwg am rhain ar ein sianelu ni a rhannu nhw i'ch rhai chi. Rhowch gymorth i ni rannu y negeseon yma mor eang a phosib.

Mae croeso i chi gefnogi mewn ffyrdd arall sy'n berthnasol i chi. Gall hyn gynnwys rhannu eich hoff ryseit, jôc am lysiau, cyngor ar weini neu choginio gyda llysiau. Os oes rhywbeth penodol ar y gweill gyda chi, rhowch wybod mewn da bryd i ni gadw golwg amdano a helpu rhannu hefyd.

DYDDIADAU PENODOL

Os ydych chi eisiau rhannu ein prif negeseuon - dyma ddyddiadau i'w nodi:

11eg Chwefror - postio'r hysbyseb teledu sy'n lawnsio ar y diwrnod yma

27fain o Chwefror - postio i gefnogi lawnsio'r ymgyrch ysgolion yng Nghymru gan gyfeirio rhieni a gofalwyr at y pecyn l'r Gâd a'r fideo am yr ymgyrch

7fec o Fawrth - postio i gyfeirio rhieni a gofalwyr at tipiau, haciau a syniadau eraill i annog plant i fwyta mwy o lysiau

14eg o Fawrth - postio i gyfeirio teuluoedd at gystadleuaeth arlein Bwyteuach y Llysiau i'w Llethu - mae gennym 100 o setiau K'Nex ar gael i'w hennill



23ain o Fawrth - postio i gyfeirio teuluoedd tuag at weithgareddau eraill gallent wneud wedi'r ymgyrch fel tyfu llysiau ac annog y plant i goginio

Dilynwch #EatThemToDefeatThem neu #BwyteWchYLlysiau

@VegPowerUK ar Twitter & Facebook

@SimplyVegUK ar Instagram, YT Shorts a Tik Tok

I'ch cefnogi chi, edrychwch yn ar ein ffeil i'r wasg ac adnoddau cyfryngau cymdeithasol sy'n llawn lluniau ac adnoddau i'w rhannu: [Cliciwch yma](#)

Diolch i'n prif noddwyr ar gyfer yr ymgyrch; Aldi, Co-Op, Dole, Lidl, Sainsbury's, Tesco a Waitrose a'r holl ysgolion, grwpiau cymunedol ac arlwywyr sy'n ein cefnogi ni gyda'u angerdd ac ymrwymiad.

Mae modd dilyn yr ymgyrch: